# Cefnogi cyflogwyr

Mae'r 'cynnig i gyflogwyr' yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau, cefnogaeth ac adnoddau rydyn ni wedi'u creu a'u cyfuno ar gyfer cyflogwyr i'ch helpu yn eich rôl.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 May 2023

Diweddariad olaf: 4 July 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cefnogi-cyflogwyr am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r ‘cynnig i gyflogwyr’ yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau, cefnogaeth ac adnoddau rydyn ni wedi’u creu a’u cyfuno ar gyfer cyflogwyr i’ch helpu yn eich rôl.

## Cynnig i gyflogwr

Yma fe welwch ddolenni i adnoddau a all helpu i'ch cefnogi yn eich rôl.

Byddwn yn diweddaru'r rhestr hon wrth i bethau newydd ddod ar gael.

### Rheoleiddio - Eich helpu i ddarparu gofal a chymorth proffesiynol a diogel

- Mynediad at Gofrestr o weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol
- Adnoddau a fideos ar ganllawiau i gofrestru
- Codau ymarfer a chanllawiau ar gyfer y rheini sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol
- Porth Gofal Cymdeithasol Cymru ar-lein i reoli cofrestriadau
- Prosesau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a delio â nhw drwy broses addasrwydd i ymarfer
- Siop un stop ar gyfer amrywiaeth o adnoddau am ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru.

### Cefnogi eich gweithlu – Eich helpu i recriwtio pobl newydd, eu cadw a’u cefnogi

- Ymgyrch Gofalwn Cymru, porth swyddi a chynllun gwarantu cyfweliad i gefnogi recriwtio a chadw staff yn y sector

- Cerdyn gweithiwr gofal ar gyfer unrhyw un sy’n cael ei gyflogi mewn rôl gofal yng Nghymru, i gydnabod y rheini sy’n gweithio yn y sector ac i ddarparu mynediad at wahanol fudd-daliadau
- Cefnogaeth i bobl gofrestredig, dioddefwyr a thystion sy’n ymwneud ag ymchwiliadau a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer
- Adnoddau a gwybodaeth am lesiant y gweithlu, gan gynnwys Canopi
- Gwybodaeth am gymwysterau, bwrsarïau, prentisiaethau a chyllid.

### Gwella gwasanaethau – Mynediad at adnoddau, data a gwybodaeth i wella ymarfer

- Cyfleoedd i ymgysylltu â ni a helpu i siapio ein gwaith
- Adnoddau i gefnogi dysgu a dealltwriaeth o bynciau fel dementia, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, canlyniadau personol a diogelu
- Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau, hyfforddiant a chynadleddau
- Mynediad at wybodaeth am ein dull gweithredu a’n cynlluniau ar gyfer ymchwil, data ac arloesi ar draws gofal cymdeithasol
- Adnoddau i'ch helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- Porth Data Gofal Cymdeithasol Cymru i helpu i greu darlun o ofal cymdeithasol a chymorth ledled Cymru
- Mynediad at e-Lyfrgell GIG Cymru i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol
- Amrywiaeth o fodiwlau dysgu ar-lein.

> Poster Cynnig y Cyflogwr
>
> PDF 174KB

## Ffyrdd eraill rydyn ni’n cefnogi cyflogwyr

## Tîm cymorth i gyflogwyr

Fel y tîm cymorth i gyflogwyr, ein nod yw:

- gweithio gyda chyflogwyr i glywed beth sy’n digwydd yn y sector. Rydyn ni’n rhannu’r wybodaeth hon â gweddill ein sefydliad er mwyn helpu i siapio ein gwaith
- rhannu’r hyn sydd ar gael i’ch cefnogi chi a’r gweithlu
- helpu cyflogwyr i ddeall eich cyfrifoldebau rheoleiddio a gwneud hyn mor syml ac effeithlon â phosibl.

Mae’r gwaith hwn mewn cyfnod peilot tan 2025 ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar gyflogwyr cartrefi gofal i oedolion a chyflogwyr gofal cartref oherwydd y cynnydd yn nifer y staff cofrestredig yn yr ardaloedd hyn ers 2020. Fodd bynnag, bydd unrhyw adnoddau a gynhyrchir ar ein gwefan ac ar gael i bob cyflogwr.

## Sesiynau gwybodaeth ar-lein

Mae gennym sesiynau gwybodaeth ar-lein ar gael i gyflogwyr a thimau rheoli.

Byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ac yn siarad â chi drwy bethau fel:

- y gwasanaeth cymorth i gyflogwyr
- y broses addasrwydd i ymarfer
- y cynnig i gyflogwyr

Gallwch ddarganfod mwy a chofrestru am ein digwyddiadau yma.

Os hoffech chi gael sesiwn bwrpasol, wedi’i theilwra i’ch tîm neu’ch digwyddiad, anfonwch e-bost at cymorthcyflogwyr@gofalcymdeithasol.cymru